

Blwyddyn 1 a Derbyn

Staff

Nina Williams
Non Roberts
Llinos Angharad

Darllen/Cofnod Darllen

Bydd eich plentyn yn cael dewis llyfr i fynd adref, a byddwn yn newid y llyfr pan fydd eich plentyn yn dychwelyd y bag darllen. Gofynnwn i chi ysgrifennu sylwadau ar ol darllen gyda'ch plentyn. Bydd plant y dosbarth Derbyn yn cael llyfr swm i fynd adre bob Dydd Gwener.

Addysg Gorfforol/Nofio

Mae ein gwersi addysg gorfforol ddwy waith yr wythnos.
Dydd Mawrth- tu allan, bydd eich plentyn angen esgidiau addas.
Dydd Mercher- tu mewn, yn neuadd yr ysgol, bydd eich plentyn angen siorts a chrys T.

Thema

Ein themau y tymor yma yw stori Elen Benfelen. Bybb gweithgareddau yn cynnwys :

- trefnu lluniau o'r stori a'i ailadrodd/ ysgrifennu
- edrych ar eirth a dysgu amdanynt
- peintio lluniau o'r stori a chreu lluniau ar y cyfrifiadur
- chwarae rol ym mwthyn y tri arth
- gwneud a blasu uwd
- dysgu am bwysu mas a chynwysedd

Gweithgareddau

Bydd gweithgareddau amrywiol yn yr ardaloedd o fewn y dosbarth i gyd fynd â'r thema, ee Yn yr ardal graffeg bydd cyfle i'r plant greu pyped o'r cymeriadau ac ysgrifennu straeon amdanynt. Yn y tywod mi fydd y plant yn chwilio am eirth mawr, canolig a bach ac yn eu didoli .